Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Trwy e-bost

24 o Awst 2023

Annwyl Gadeirydd,

Ysgrifennaf i fynegi fy niolch i chi a'r Pwyllgor am eich adroddiad diweddar ar yr 'Adolygiad o Gomisiynwyr Cymru'. Rwy'n gwerthfawrogi'r gwaith cynhwysfawr a wnaed gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, yn dilyn argymhelliad Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd. Mae eich archwiliad o drefniadau adnoddau Comisiynwyr yn ddefnyddiol ac yn amserol.

Yn benodol, rwy'n croesawu canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad sy'n arbennig o berthnasol i'm rôl ac sydd wedi'u cynllunio i helpu i wella'r broses o bennu ac esblygiad ein cyllidebau blynyddol:

- Argymhelliad 4 – Mae croeso i'ch galwad ar Weinidogion Cymru i gadarnhau'r dyraniadau cyllid ar gyfer Comisiynwyr mewn ffordd gyson a diffiniedig i roi digon o amser i ni gynllunio ein cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd dilynol.

- Argymhelliad 14 – Edrychaf ymlaen at y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol am yr adolygiad gan swyddogion o gwmpas gwaith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

- Argymhelliad 16 - Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn adolygu effaith bosibl deddfwriaeth newydd ar gylch gwaith Comisiynwyr Cymru. Mae angen sicrhau bod gennym adnoddau digonol i ymestyn ein rolau a'n cyfrifoldebau.

Wrth i mi baratoi i osod y blaenoriaethau ar gyfer fy nhymor, eleni yn unig, rwyf wedi anfon arwydd o fy anghenion cyllidebol i Lywodraeth Cymru cyn toriad yr haf a byddaf yn anfon fy amcangyfrif llawn erbyn y dyddiad cau statudol, sef 31 Hydref. Rwy'n rhagweld y bydd canfyddiadau adroddiad y Pwyllgor yn cael eu hystyried yn ystod y trafodaethau cyllidebol ac wrth bennu fy nghyllideb ar gyfer 2024-25. O'm hymgysylltiad diweddar ag arweinwyr cyrff cyhoeddus Cymru dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae'n amlwg eu bod yn croesawu'r cymorth a'r cyngor arbenigol a ddarparwyd gan fy nhîm. Er fy mod yn cydnabod yr amgylchiadau cyllidebol hynod o galed sy'n wynebu Llywodraeth Cymru yn y gyllideb sydd i ddod, rwy'n gobeithio y gallaf gadw fy nhîm presennol ac y bydd y gwerth a ddarperir gan fy swyddfa yn cael ei gydnabod yn ystod y trafodaethau ar y gyllideb.

Comisinydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Tramshed Tech, Heol Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Tramshed Tech, Pendyris Street
Cardiff, CF11 6BH
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Dymunaf ailddatgan fy ymrwymiad i weithio ar y cyd â Chomisiynwyr eraill. Rydym eisoes yn cydweithio'n agos, ac rwy'n rhagweld y gallwn adeiladu ar hyn ymhellach yn y blynyddoedd i ddod.

Nodaf a chroesawaf fwriad y Pwyllgor i ddychwelyd at graffu pellach ar waith y Comisiynwyr fel rhan o'i waith craffu ar y cyfrifon blynyddol. Edrychaf ymlaen at weithio gyda swyddogion ar hyn maes o law.

Unwaith eto, diolch i chi am anfon copi o'ch adroddiad ac am yr argymhellion cefnogol ataf.

Yr eiddoch yn gywir,

D. Walker

Derek Walker
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Comisinydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Tramshed Tech, Heol Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Tramshed Tech, Pendyris Street
Cardiff, CF11 6BH
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales